700-701

ENGLISH VERSION AT BOTTOM OF DOCUMENT

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn ar Nos Lun 1af Gorffennaf, 2019 am 7.30 y.h.

Presennol:

Cyng. P. Davies (yn y Gadair)
Cyng. P. Bonner **Cyng. A. Davies** **Cyng. Sh. Edwards**
Cyng. A. Evans **Cyng. H.M. Evans** **Cyng. J. George**
Cyng. E. Lewis **Cyng. C. Lloyd-Morgan**
Cynghorydd Sir M. Davies

Ymddiheuriadau
Cyng. L. Owen a chydymdeimlwyd gyda'r Cynghorydd Owen ar ei brofedigaeth diwethaf.

1. **Cofnodion y Cyfarfodydd Diwethaf**
   Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 13eg Mai, 2019.
   Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. Alun Evans ac eiliwyd gan Cyng. A. Davies.

2. **Asesiad Risg ac Asedau**
   Dim materion yn codi.

3. **Materion angen sylw'r Cyngor Sir**

(i) **Goleuadau Stryd arfaethedig yn Llanafan**: Cyfeiriodd y Clerc at ohebiaeth a dderbyniwyd wrth aelod o'r cyhoedd yn tynnu sylw bod gwifrau ffôn i weld yn cyffwrdd pen y polyn yn ystod tywydd gwyntod. Cyfeiriwyd yr unigolyn at Gyngor Sir Ceredigion a oedd bellach wedi mabwysiadu'r golau.

(ii) **Ffyrdd a draeniau angen sylw o fewn yr ardal**: Cydnabyddwyd bod y Cyngor Sir wedi mynd ati i lenwi mwyafrif o dyllau yn ffyrdd yr ardal. O ran y draeniau mae'r cyfnod diweddar o dywydd sych yn lleihau'r problemau o ddraeniau'n gorlenwi. Cytunwyd i gadw llygad ar y sefyllfa.

(iii) **Ceisiadau Cynllunio:** Y Clerc i gadw llygad ar sefyllfa ble codir adeiladau heb gais cynllunio.

(iv) **Coeden mewn perygl o gwympo ym Mhentref Llanafan:** y Clerc i gysylltu ymhellach gyda'r Cyngor Sir fel mater o Iechyd a Diogelwch y cyhoedd.

(v) **Ffordd heibio Dolgwybedin**: mae cyflwr y ffordd yn parhau i beri gofid ac angen sylw.

(vi) **Materion Ffyrdd yn Cnwch Coch**: y Clerc i gadw mewn cysylltiad gyda swyddogion y Cyngor Sir i sicrhau'r cyflawnir y gwaith.

(vii) **Problemau'r ffyrdd yn Llanafan**. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ymholi beth yw'r sefyllfa am y materion a godwyd gyda'r Swyddog ar ymweliad safle o amgylch y pentref yn ddiweddar.

(viii) **Bont wrth ymyl Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn**: Adroddwyd ar achos o fandaliaeth diweddar ar y Bont Pren. Yr Heddlu wedi eu galw ac yn delio gyda'r mater.

(ix) **Cais am fin sbwriel/ail-gylchu ym Mhentref Llanfihangel-y-Creuddyn**. Derbyniwyd ymateb o'r Cyngor Sir y medrir darparu bin sbwriel dros dro am gyfnod o dri mis gyda chynnig i'r Cyngor Bro i'w brynu ar ddiwedd y cyfnod. Cytunwyd i ddarparu bin yn y Pentref ar gyfnod prawf.

(x) Gwaith ar y draeniau/ymyl y ffordd ger Y Wenallt wedi dechrau'r diwrnod hwnnw.

4. Materion Cyllidol

(i) Dogfen y Llywodraeth o ran lwfans blynyddol o £150 i bob Cynghorydd Cymuned a Thref. Cofnodir bod pob un cynghorydd Cyngor Cymuned Trawsgoed wedi dychwelyd ffurflenni i'r Clerc yn gwrthod lwfans am y flwyddyn 2019/20.

(ii) Cytunwyd i dalu taliad o £385.21 am adnewyddu yswiriant am y flwyddyn 2019/20. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. H. Evans.

5. Gohebiaeth

Derbyniwyd lythyr wrth T. Davies o Abermagwr yn gwneud cais ar ran plant a thrigolion Abermagwr am i'r Cyngor Bro gyfrannu'n ariannol at adnewyddu y ffens o amgylch y maes chwarae gwyrdd ar gyfer y trigolion lleol. Deallir mai talu am y nwyddau'n unig fyddid angen gan fod deuliaid lleol yn barod i gymryd at y gwaith. Cytunwyd i'r cais gyda'r Cyng Paul Davies i ymchwilio am gostau'r nwyddau.

Cynnigiwyd yr uchod gan Cyng. A. Davies ac eiliwyd gan Cyng. C. Lloyd-Morgan.

6. **Cais Cynllunio** *A190374 Plot adjacent Gwarcwm, Llanafan, Aberystwyth, SY23 4BD Y Bwriad: Variation of condition 2 of planning permission A140970 (extension of time to complete development).*

Cytunwyd i ymateb i ymholiad Cyngor Sir Ceredigion am farn y Cyngor Bro ar y cais nad oedd gwrthwynebiad gan yr aelodau.

7. Unrhyw Fater Arall

(i) Cyfeiriwyd at ddigwyddiad o bryder i drigolion lleol ym Mhentref Llanafan yn ddiwedd ble roedd mwg du wedi mynd ar draws rhan o'r pentref yn dilyn llosgi gan un o'r trigolion. Deallir bod trigolion wedi cysylltu gyda'r Adran Amgylchedd, Cyngor Sir Ceredigion.

(ii) Derbyniwyd wybodaeth gan y Cyngor Sir o drefniadau newydd ar gyfer casglu sbwriel/ail-gylchu. Y Clerc i ofyn am eglurhad o'r map a ddarparwyd yn nodir newidiadau gan nad oedd yn ddealladwy iawn.

(iii) Trafodwyd yr angen am dorri ochr y ffyrdd o fewn yr ardal. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir gyda manylion o rhai o'r ffyrdd oedd fwyaf o frys i'w torri.

(iv) Trafodwyd yr angen i gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru am y tyfiant rhwng yr Ysgol a Wal yr Eglwys yn Llanfihangel-y-Creuddyn gyda'r angen o'i dorri nol ar frys.

(v) Adroddodd y Cyng. H. Evans ei fod wedi cynrychioli'r Cyngor Cymuned yng Ngŵyl Gyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2020 yn Nhref Aberteifi yn ddiweddar.

8. Dyddiad y Cyfarfod nesaf

Cynhelir y cyfarfod nesaf y Cyngor Bro ar Nos Lun 2 Medi 2019 am 7.30 y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn.

Minutes of Trawsgoed Community Council held at Llanfihangel-y-Creuddyn School on Monday 1 July, 2019 at 7.30 p.m.

Present:

Cllr. P. Davies (In the Chair)

Cllr. P. Bonner	**Cllr. A. Davies**	**Cllr. Sh. Edwards**
Cllr. A. Evans	**Cllr. H.M. Evans**	**Cllr. J. George**
Cllr. E. Lewis	**Cllr. C. Lloyd-Morgan**	
County Councillor M. Davies		

Apologies
Cllr. L. Owen and condolences was expressed with Cllr. Owen on his recent bereavment.

1. **Minutes of Last Meetings**

   The minutes of the last meeting, 13th May, 2019 were confirmed and accepted.

   Accuracy was proposed by Cllr. Alun Evans and seconded by Cllr. A. Davies.

2. **Risk Assessment and Assets**

   No issues arising.

3. Matters **arising from minutes**

(i) **Streetlights at Llanafan**: The Clerk referred to correspondence received from a member of the public drawing attention to the fact that telephone wires appeared to touch the end of the new pole during windy weather. As Ceredigion County Council had now adopted the light the individual was referred to officers of that Authority.

(ii) **Roads and drains requiring attention within the area**: It was acknowledged that the County Council had undertaken to fill most potholes in the area's roads. As for the drains, the recent dry weather had reduced the problem at present. It was agreed to keep an eye on the situation.

(iii) **Planning Applications**: The Clerk to monitor the situation where buildings are built without a planning application.

(iv) **Tree at risk of falling in Llanafan Village**: Clerk to further contact the County Council as a matter of public Health and Safety.

(v) **Road leading to Dolgwybedin from Llanafan**: The condition of the road continues to cause concern and requires attention.

(vi) **Road Issues at Cnwch Coch**: the Clerk to liaise with County Council officers to ensure the works are carried out.

(vii) **Road problems at Llanafan**. The Clerk to contact the County Council to enquire as to the position regarding the issues raised with an Officer during a recent site visit around the village.

(viii) **Bridge adjacent to Llanfihangel-y-Creuddyn School**: A recent case of vandalism was reported on the Wooden Bridge. Police had been informed and are dealing with the matter.

(ix) **Request for litter / recycling bin in Llanfihangel-y-Creuddyn Village**. A response was received from the County Council that a temporary bin could be provided for a period of three months with an offer for the Community Council to purchase the bin at the end of the period. It was agreed to provide a bin in the Village on a trial basis.

(x) Drainage / verge works near Wenallt had started that day.

4. Financial Matters

(i) Welsh Government communication in respect of an annual allowance of £150 per Community and Town Councillor.

It is recorded that all Trawsgoed Community Councillors returned forms to the Clerk noting their refusal to accept the allowance for the year 2019/20.

(ii) It was agreed to pay £385.21 for the insurance renewal for the year 2019/20. Payment was proposed by Cllr. A. Evans and seconded by Cllr. H. Evans.

5. Correspondence

A letter was received from T. Davies of Abermagwr on behalf of the children and residents of Abermagwr making a request for the Community Council to contribute financially for the replacement of the fence around the green playing field for residents. It is understood that only the material would need be paid for as local families were ready to undertake the work. It was agreed that Cllr P. Davies investigate the cost of the goods.

The above was proposed by Cllr. A. Davies and seconded by Cllr. C. Lloyd-Morgan.

6. **Planning Application** A190374 Plot adjacent Gwarcwm, Llanafan, Aberystwyth, SY23 4BD Proposal: Variation of condition 2 of planning permission A140970 (extension of time to complete development).

It was agreed to respond to Ceredigion County Council's enquiry that the Community Council had no objection of the application.

7. **Any Other Business**

(i) Reference was made to local concerns regarding a recent incident of black smoke in the village of Llanafan, it is believed due to burning of materials by one of the residents. It is understood that residents had contacted the Environment Department, Ceredigion County Council at the time.

(ii) Information had been received from the County Council of new arrangements for refuse/recycling collection. The Clerk to seek clarification of the map provided noting changes as the information wasn't clear.

(iii) The need to cut roadsides within the area was discussed. The Clerk to contact the County Council with details of some of the most urgent roadsides that needed cutting.

(iv) The Clerk to contact Natural Resources Wales about the growth between the School and the Church Wall in Llanfihangel-y-Creuddyn with a request to cut the growth.

(v) Cllr. H. Evans stated that he had recently represented the Community Council at the Tregaron 2020 National Eisteddfod Proclamation Festival at Cardigan Town.

8. **Date of next Meeting**

The next meeting of the Community Council will be held on Monday 2 September 2019 at 7.30 pm at Llanfihangel-y-Creuddyn Primary School.